

**Blegywryd – R, Peniarth 31, f. 18v**

**Rhagymadrodd Tair Colofn Cyfraith**

O hyn allan y traethir o gyfreitheu y wlat a'r swydocyon dywededic. Ac yn gyntaf o teir colofyn kyfreith y dywedir: galanas a'e naw affeith, tan a'e naw affeith, lletrat a'e naw affeith. Galanas yw llad dyn, llosc yw gwan tan y mywn y peth a losger, lletrat yw symud o'e le yr hyn a dyccer yn lletrat. Beth bynhac a wnelher yg kylch y tri gueithret hyn, affeith yw wrth lad neu losc neu letrat; ac wrth hynny y tri naw affeith, achwysson ynt trwy y gweithret y gwneir y gueithretoed hynn trwy [gytsynnyaw]. Kysynnyaw [yw] yr holl affeithu: rei ohonunt trwy olwc, ereill trwy eireu, ereill trwy weithretoed megys llygatrudyaeth neu tauotrudyaeth neu weithret a uo llei no'r mwyhaf. Sef yw y mwyhaf, colofyn kyfreith.

Kyntaf affeith yw menegi y'r llofrud y lle y bo y dyn a uynnei ef y lad. Eil yw rodi kyghor y lad dyn. Trydyd yw disgwyl brat ar dyn. Petweryd yw dangos y dyn y'r llofrud a uynnei y lad. Pymet yw mynet yg ketymdeithas y llofrud pan el y lad dyn. Whechet yw dyuot y gyt a'r llofrud y'r tref y bo y dyn yndi a ladher. Seithuet yw kymorth y llofrud o lad dyn. Wythuet yw arrwydaw dyn hyny del y dyn a'e llado. Nawuet yw edrych ar lad dyn gan y odef.

**Blegywryd – R**

**Rhagymadrodd Tair Colofn Cyfraith**

O hyn allan y traethir ynghylch cyfreithiau'r wlad a'r swyddogion dywededig. Ac yn gyntaf dywedir am dair colofn cyfraith: galanas a'i naw affaith, tân a'i naw affaith, lladrad a'i naw affaith. Galanas yw lladd dyn, llosg yw cynnau tân yn y peth a losger, lladrad yw symud o'i le yr hyn a ddyger yn lladrad. Beth bynnag a wneler ynghylch y tri gweithred hyn, affaith yw i ladd neu losg neu ladrad; ac oherwydd hynny mae'r tri naw affaith yn achosion cyfreithiol gan y gwneir y gweithredoedd hyn trwy gydsynio i'r weithred. Cydsynio yw'r holl affeithiau: rhai ohonynt trwy olwg, eraill trwy eiriau, eraill trwy weithredoedd megis llygadruddiaeth neu dafodruddiaeth neu weithred sydd yn llai na'r fwyaf. Dyma yw'r fwyaf, colofn cyfraith.

Yr affaith gyntaf yw mynegi i'r llofrudd lle y bo'r dyn y mynnai ef ei ladd. Ail yw rhoddi cyngor i ladd dyn. Trydydd yw cynllwynio i fradychu dyn. Pedwerydd yw dangos y dyn i'r llofrudd a fynnai ei ladd. Pumed yw mynd yng nghwmni'r llofrudd pan êl i ladd dyn. Chweched yw dod gyda'r llofrudd i'r dref y bo'r dyn a ladder ynddi. Seithfed yw cynorthwyo'r llofrudd i ladd dyn. Wythfed yw atal y dyn hyd nes y dêl y dyn a'i llado. Nawfed yw edrych ar ladd dyn gan ei odef.

**Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 60r**

**Lladrad**

O naw affeith lledrat. Kyntaf yw onadunt, menegi y lledrat a dycker. Eil yw kytsynnyaw a'r lledrat. Trydyd yw rodi bwyllwr y'r lleidyr. Pedweryd yw mynet yn y gyweithyas ac arwein y bwyllwr. Pymhet yw mynet ygyt ac ef y dorri y lle y bo y lledrat yndaw. Chwechet yw bot yn odwr a'e erbynnyeit attaw. Seithuet yw kerdet dyd neu nos ygyt a'r lleidyr. Wythuet yw kymryt o'r lledrat. Nawuet yw kymryt gwerth y gan y lleidyr a'e gelu arnaw.

Ual hynn y gwedir lledrat herwyd kyfreith Howel. Deudegwyr am varch ac am tri ugeint aryant, kanys lleihaf march y werth yw march trugeint, a'r hanner yn wyr not a'r hanner arall yn wyr dinot, a'r deuparth yn genedyl y tat a'r traean o genedyl y vam, ac yn gyn nesses udunt ac y dilyont talu y galanas a'e chymryt. Y wadu pwenn march ac eidyon, chwegwyr ac ef ehun seithuet, ac eu hanner yn wyr not. Y wadu hwch neu dauat neu ueich kefyn, llw pum wyr, a'r neill hanner not, ac ef ehun yn bymhet, ac yna y byd deu hanner y reith y rwng y dwy genedyl, kanny ellir traeanu pedwar gwyr. Y reithoed hynny nyt ant namyn yn ol gyrr kyfreithawl. Sef yw gyrr kyfreithawl: llw y perchennawc ar vot yn wir ar y dyn racko y lledrat, kannyt gyrr namyn gyrr perchennawc. Kyt dywetto y perchennawc ar y dauawt leueryd ar dyn wneuthur lledrat, ac nas tygho yn y dygyn, nyt iawn namyn llw yr amdiffynnwr o'e wadu. Kyt gyrrro dyn ny bo perchennawc lledrat ar arall, nyt kyfreith namyn llw yr

amdiffynnwr o'e wadu, kanny dyly gyrru lledrat namyn perchennawc. Kyt pallo reith dyn y bo vn o'r affeithoed arnaw, ny dygwyd namyn dirwy ony mynnir erlit kyfreith anudon arnaw. Kyt pallo reith y llofrud yr meint y lledrat a dywetter arnaw, ny byd eneituadeu o dal seith punt; a chynnys talho, ny dyly namyn y dehol, kanny dylyir dihenydyu dyn heb dim yn y law. Ereill a dyweit y vot yn eneituadeu ony cheiff y werth.

## Iorwerth – D

### Lladrad

Ynghylch naw affaith lladrad. Cyntaf ohonynt yw dangos y lladrad a ddyger. Ail yw cydsynio i'r lladrad. Trydydd yw rhoddi ymborth i'r lleidr. Pedwerydd yw mynd yn ei gwmmi a chario'r ymborth. Pumed yw mynd gydag ef i dorri'r lle y bo'r lladrad ynddo. Chweched yw bod yn dderbyniwr nwyddau a'u cymryd ato. Seithfed yw cerdded ddydd neu nos gyda'r lleidr. Wythfed yw cymryd peth o'r lladrad. Nawfed yw cymryd gwerth gan y lleidr am ei gelu.

Fel hyn y gwedir lladrad yn ôl Cyfraith Hywel. Deuddeg gŵr am farch ac am drigain arian, oherwydd y march lleiaf ei werth yw march trigain, a'r hanner yn wŷr nod a'r hanner arall yn wŷr dinod, a'r ddwy draean yn genedl y tad a'r traean o genedl y fam, ac mor agos iddynt fel ei bod yn iawn iddynt dalu ei alanas a'i dderbyn. I wadu baich march ac eidion, chwe gŵr ac ef ei hun yn seithfed, a'u hanner yn wŷr nod. I wadu hwch neu ddafad neu faich cefn, llw pum gŵr, a'r naill hanner yn rhai nod, ac ef ei hun yn bumed, ac yna y bydd y rhaith yn ddau hanner rhwng y ddwy genedl, gan na ellir traeanu pedwar gŵr. Nid yw'r rheithoedd hynny yn rhedeg ond ar ôl cyhuddiad cyfreithiol. Dyma yw cyhuddiad cyfreithiol: llw y perchennog ei bod yn wir i'r dyn acw wneud y lladrad, oherwydd nid cyhuddiad ond cyhuddiad perchennog. Er i'r perchennog ddweud ar dafod leferydd i ddyn wneuthur lladrad, ond na thyngo hynny i'r eithaf, nid yw'n iawn

cael mwy nag ond llw'r amddiffynnwr i'w wadu. Er i ddyn na fo'n berchennog gyhuddo dyn arall o ladrad, nid cyfraith yw cael mwy na llw'r amddiffynnwr i'w wadu, gan nad yw'n iawn i neb gyhuddo o ladrad ond perchennog. Er y pallo rhaith dyn y bo un o'r affeithiau arno, ni fforffeda ond dirwy oni mynnir erlid cyfraith anudon arno. Er y pallo rhaith y llofrudd, er maint y lladrad y cyhuddo ef ohono, ni fydd yn enaid faddau os tâl saith bunt; ac er na thalo, nid iawn ond ei alltudio, gan nad yw'n iawn dienyddio dyn heb ddim yn ei law. Dywed eraill ei fod yn enaid faddau oni chaiff ei werth.

**Cyfnerth – Mk, Llawysgrif Bodorgan, f. 17r**

**Tân**

O naw affeith tan. Kyntaf yw kyghori mynet y losci y ty. Eil yw duunaw am y llosc. Trydyd yw mynet y losci. Petweryd yw ymdwyn y rwyll. Pymhet yw llad y tan. Whechet yw keissaw dylwyf. Seithuet yw whythu y tan hyny ennynho. Wythuet yw e rodi y tan y'r neb a losco ac ef. Nawuet yw edrych ar y llosc gan y odef. Y neb a diwatto vn o'r naw affeith hyn, rodet lw deg wyr a deu vgeint heb gaeth a heb alltut.

**Cyfnerth – Mk**

**Tân**

Ynghylch naw affaith tân. Cyntaf yw cynghori ynghylch mynd i losgi'r tŷ. Ail yw cytuno i'r llosgi. Trydydd yw mynd i losgi. Pedwerydd yw cario'r craesed. Pumed yw cynnau'r tân. Chweched yw ceisio tanwydd. Seithfed yw chwythu'r tân hyd nes iddo gynnau. Wythfed yw rhoddi'r tân i'r sawl a losgo ag ef. Nawfed yw edrych ar y llosg a'i oddef. Pwy bynnag a wado un o'r naw affaith hyn, rhodded lw deg gŵr a deugain heb ŵr caeth a heb alltud.

**Blegywryd – R, Peniarth 31, f. 19v**

**Talu a derbyn galanas**

Ual hyn yd enwir achoed kenedyl a dylyhwynt talu galanas neu gymryt tal. Kyntaf ach o'r naw yw tat a mam y llofrud neu y lladedic. Eil yw hentat, tryded gorhentat, petwared brodyr a chwhioryd, pymet kefynderw, whechet kyuerderw, seithuet kyfneieint, wythuet gorchyfneieint, nawuet gorchawon. Aelodeu yr achoed hynny ynt nyeint ac ewythred y llofrud neu y lladedic. Nei yw mab brawt neu whaer neu kefynderw neu gefnitherw neu gyfuerderw. Ewythyr yw brawt tat neu vam neu hentat neu henuam neu orhentat neu orhenuam. Hyn yw meint ran pop vn o'r rei hynny oll: pwy bynhac a uo nes o vn ach y'r llofrud neu y'r lladedic noc arall, hwnnw a tal neu a erbyn deu kymeint a'r llall, ac uelly y may am pawb o'r achoed ac eu haylodeu. Plant y llofrud neu y lladedic, ny dilyant talu dim na'e erbynnyaw o werth galanas, kanys ran y llofrud, yr hwn a tal mwy noc vn arall, a seif drostaw ef a'e blant. A phryder y rei hynny heuyt a perthyn y vot arnaw ef. Pryder plant y lladedic a perthyn y uot ar y ryeni, a'e gytetiuedyon a gaffant trayan guerth y alanas a guerth cwbyl y sarhaet, ac wrth hynny ny thal etiued vn ohonunt ac nyt erbynnya ran o alanas.

**Blegywryd – R**

**Talu a derbyn galanas**

Fel hyn yr enwir achoedd cenedl y mae'n iawn iddynt dalu galanas neu gymryd tâl. Yr ach gyntaf o'r naw yw tad a mam y llofrudd neu'r lladedig. Ail yw hendad, trydydd gorhendad, pedwaredd brodyr a chwiorydd, pumed cefndryd, chweched cyfyrdon, seithfed ceifnaint, wythfed gorcheifnaint, nawfed gorchawon. Aelodau'r achoedd hynny yw neiaint ac ewythredd y llofrudd neu'r lladedig. Nai yw mab brawd neu chwaer neu gefnder neu gyfnither neu gyfyrder. Ewythr yw brawd tad neu fam neu hendad neu henfam neu orhendad neu orhenfam. Dyma yw maint rhan pob un o'r rhai hynny oll: pwy bynnag a fo'n nes o un ach i'r llofrudd neu i'r lladedig nag un arall, fe dâl neu fe dderbynia hwnnw ddwywaith cymaint â'r llall, ac felly y mae am bob un o'r achoedd a'u haelodau. Nid yw'n iawn i blant y llofrudd neu'r lladedig dalu na derbyn dim o werth galanas, oherwydd y mae rhan y llofrudd, sydd yn talu mwy na neb arall, yn sefyll drosto ef a'i blant. Ac y mae gofal y rhai hynny hefyd yn disgyn arno ef. Mae gofal plant y lladedig yn disgyn ar ei rieni, a chaiff ei gydetifeddion draean gwerth ei alanas a'r cwbl o werth ei sarhaed, ac oherwydd hynny ni thâl ac ni dderbynia etifedd yr un ohonynt ran o alanas.